

EXECUTIVE DECISION RECORD

Y CABINET

DYDD MERCHER, 4 RHAGFYR 2024

Cabinet Members:

Councillors: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris,
A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

Officers in Attendance:

N.Pearce, A.Jarrett, A.Thomas, H.Jones, C.Griffiths, S.Rees, A.James,
J.Burge, H.Hasan, H.Lewis, L.McAndrew, L. Cooper-Smith, T.Davies a/ac
N.Jones

Wales Audit Office:

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau a'r Swyddogion canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cyng. A Llewellyn - Cofnod Rhif 10 - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfalaf 2024/25, gan ei fod yn llywodraethwr yn un o'r ysgolion a enwir.

- Frances O'Brien - Cofnod Rhif 14 – Penodi Swyddog Canlyniadau a Chaniatáu Indemniad. Teimlai fod y budd hwn yn rhagfarnus, felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.
- Y Cyng. Phillips - Cofnod Rhif 17 – Gan fod y Cyng. Phillips yn rhan o drafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas ag adroddiad y Gorchymyn Traffig. Teimlai fod y budd hwn yn rhagfarnus, felly gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar y 13 Tachwedd, 2024, yn gofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2024/25.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEDDF YR EGLWYS YNG NGHYMRU CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Cymeradwyo'r cais a nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **GRANTIAU'R TRYDYDD SECTOR A THREFNIADAU COMISIYNU A**

Rhoddodd swyddogion y diweddaraf i'r Aelodau gydag adborth gan y Pwyllgor Craffu perthnasol. Cytunodd y Cabinet i gynnwys y geiriad ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu, sydd wedi'i gynnwys isod, mewn print ***trwm ac italig***.

1. Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cyllid Grantiau'r Trydydd Sector, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.
2. ***Cymeradwyo'r argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu perthnasol - 'dileu eithrio costau craidd o'r broses ymgeisio'.***
3. Cymeradwyo'r meini prawf ychwanegol - bydd yn ofynnol i sefydliadau ddangos cyfraniad yn eu ceisiadau am gyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.
4. Nodi'r cynnig ar gyfer adolygiad annibynnol o grantiau'r trydydd sector a threfniadau comisiynu'r Cyngor.

Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Sicrhau bod penderfyniadau cyllido a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 mewn perthynas â grantiau a ddyfernir o dan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector, yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2025-26**

Penderfyniad:

Cymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor net ar gyfer 2025/26.

1. 49,703.53 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan.
2. Ar gyfer pob ardal Cyngor Tref a Chymuned, cymeradwyo'r swm a ddangosir ym mharagraff 4 o'r adroddiad.

Rheswm dros y Penderfyniadau Arfaethedig:

Pennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Mae'r penderfyniadau'n rhai brys i'w rhoi ar waith ar unwaith, ac maent yn destun caniatâd y Cadeirydd Craffu perthnasol (ac felly nid yw'n destun y weithdrefn galw i mewn). Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Cyngor i

anfon y sylfaen drethu ymlaen i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlenni gofynnol.

10. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2024/25**

Penderfyniad:

1. Cymeradwyo cyllideb arfaethedig 2024/25 sy'n dod i gyfanswm o £68.834m.
2. Cymeradwyo'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Medi 2024.

Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:

I gydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddarau rhagamcaniadau cyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

12. **MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

13. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

14. **PENODI SWYDDOG CANLYNIADAU A CHANIATÁU INDEMNIAID**

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ail-gadarnhaodd Frances O'Brien ei chysylltiad â'r eitem a gadawodd y cyfarfod.

Penderfyniad:

Cymeradwyo ymrwymo i indemniad priodol o dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 ar gyfer Frances O'Brien, mewn perthynas â chyflawni'i dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau a/neu Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer yr holl Etholiadau a Refferenda sy'n digwydd yn y Fwrdeistref Sirol.

Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Sicrhau bod yr indemniadau priodol ar waith ar gyfer swyddogion sy'n derbyn cyfrifoldeb personol am faterion o'r fath

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

15. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir y canlynol:-

Bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei diwygio fel a ganlyn:-

Ychwanegir y cwmni at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae'r cwmni canlynol wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

Cwmni	Categori
Safeguard Pest Control & Environmental Services Ltd (S0101)	4,5

Cwmnïau i'w **tynnu** oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae angen tynnu'r cwmnïau canlynol oddi ar y rhestr oherwydd y rhesymau canlynol:-

N014 - Mae'r cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

R045 - Mae'r cwmni wedi'i ymddiddymu.

C051 – Mae'r cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

<u>Cwmni</u>	<u>Categori</u>
Nicholls Colton Group Ltd (N014)	78,111
Reactive Integrated Services Ltd (R045)	31,111
Cintrix Systems Ltd (C051)	49,68

Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **GORCHYMYN TRAFFIG - MELIN, CASTELL-NEDD**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, caiff y gwrthwynebiadau i Orchymyn (Heol Walter, Melincryddan, Castell-nedd) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho, ar Unrhyw Adeg) 2024 cadarnhau'n llawn (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a chaiff y cynllun arfaethedig ei dynnu'n ôl gyda'r sefyllfa'n cael ei fonitro wrth symud ymlaen.

Bydd y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniad y bwrdd yn unol â hynny.

Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Caiff y cynllun ei dynnu'n ôl a bydd y cyfyngiad yn parhau i fod ar waith, fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

17. **GORCHYMYN TRAFFIG - ELBA CRESCENT**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd C Phillips ei gysylltiad â'r eitem hon, a gadawodd y cyfarfod am y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny.)

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, caiff y gwrthwynebiadau eu diystyru'n llawn ar gyfer Gorchymyn (Cilgant Elba a Chilgant Baldwins, Twyni Crymlyn) (Gwahardd Cerbydau Modur ac Eithrio Mynediad) 2024 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddisbarthwyd) a chaiff y cynllun ei roi ar waith fel yr hysbysebwyd.

Bydd y gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniad y bwrdd yn unol â hynny.

Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn atal pobl nad ydynt yn breswylwyr rhag parcio'n ddifeddwl er budd diogelwch ar y ffyrdd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2023/2024**

Penderfyniad:

1. Bod Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo.
2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn ogystal ag Aelod y Cabinet perthnasol os oes angen, i wneud unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

I'w rhoi ar waith ar unwaith.

19. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

20. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

PENDERFYNWYD:

Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o

Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym mharagraffau perthnasol Rhan 4 yr Atodlen.

21. **GLAMORGAN FURTHER EDUCATION TRUST FUND**

Penderfyniad:

1. Bod y ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodwyd yn atodiadau B ac C i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd a wnaed o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2024/2025, i geisiadau cymwys a dderbyniwyd ar neu cyn y dyddiad cau, yn cael eu cymeradwyo.

2. Bod dyrannu arian hyd at uchafswm o £2,000.00 ar gyfer 3 myfyriwr amser llawn (atodiad B) ac £1,000.00 ar gyfer 4 myfyriwr rhan-amser (atodiad C) yn cael ei gymeradwyo.

3. Awdurdodi taliadau i'r ymgeiswyr hynny y cymeradwywyd cefnogaeth barhaus gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar eu cyfer eisoes.

Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Darparu cefnogaeth ariannol briodol i fyfyrwyr a fyddai fel arall yn dioddef caledi.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

22. YMDDIRIEDOLAETH HAROLD A JOYCE CHARLES

Penderfyniad:

1. Cymeradwyo'r ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodir yn atodiad B i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, o Gronfa Harold a Joyce Charles ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/2025, ar gyfer ceisiadau cymwys a dderbyniwyd ar y dyddiad cau neu cyn hynny.
2. Cymeradwyo'r dyraniad o £10,000.00 ar gyfer 5 myfyriwr amser llawn (atodiad B).
3. Awdurdodi taliadau i'r ymgeiswyr hynny y mae cefnogaeth barhaus gan Gronfa Harold a Joyce Charles ar eu cyfer eisoes wedi'i chymeradwyo.

Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

Darparu cefnogaeth ariannol briodol i fyfyrwyr a fyddai fel arall yn dioddef caledi.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

CHAIRPERSON